




Teledu Cymru





Pa fath o raglenni?

S4C yw'r sianel Gymraeg wrth gwrs ac mae pob math o raglenni arni. Cliciwch ar y wefan isod ac edrychwch ar dudalennau 30-39 i weld rhai o'r rhaglenni sy'n cael eu dangos ar y sianel:

<http://www.s4c.cymru/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2016.pdf>

<p>Erin</p> 	<p>Dw i'n mwynhau gwyllo dramâu S4C. Maen nhw'n dda iawn achos maen nhw'n dangos bywyd fel mae e. Mae'r actio'n ffantastig fel arfer. Ardderchog!</p>
<p>Ashok</p> 	<p>Dw i byth yn gwyllo dramâu nac operâu sebon achos maen nhw'n wastraff amser. Dydyn nhw ddim yn dangos bywyd pob dydd a dydy'r cymeriadau ddim yn real. Mae'n well gen i wyllo rhaglenni chwaraeon. Mae rhaglenni chwaraeon S4C yn wych! Mae digon o amrywiaeth – pêl-droed, ralio, beicio – a rygbi wrth gwrs.</p>
<p>Wil</p> 	<p>Dw i'n cytuno am y chwaraeon – gwych! Ond mae rhai rhaglenni drama ardderchog hefyd ac mae Rownd a Rownd yn arbennig o dda oherwydd mae'n delio gyda sefyllfaoedd pobl ifanc.</p>

<p>Sofia</p> 	<p>Dw i byth yn edrych ar S4C oherwydd mae'r rhaglenni'n ddiflas iawn. Dw i'n gwyllo sianeli Saesneg bob amser.</p>
<p>Cai</p> 	<p>Sut wyt ti'n gallu dweud bod rhaglenni S4C yn ddiflas os nad wyt ti'n edrych ar y sianel, Sofia? Mae rhaglenni da iawn ar y sianel. Mae'r rhaglenni cerddoriaeth yn wych, er enghraifft - rwyf ti'n gallu clywed y gerddoriaeth ddiweddaraf yng Nghymru (ac mae pobl hŷn yn gallu mwynhau cerddoriaeth fwy traddodiadol!) Mae rhywbeth at ddant pawb yma!</p>



“Fideo Fi”

Ydych chi eisiau gwybod sut i wneud pethau anhygoel, fel ...?

defnyddio
pridd i wneud
darn o gelf

gwneud bomiau
ar gyfer y
bath

rhoi
makeover i'r
ystafell wely

paratoi
ceffyl ar
gyfer sioe

gwneud
myffin
mewn mwg

Mae rhaglen ar S4C yn gwahodd gwylwyr ifanc i anfon fideos sy'n egluro sut i wneud pethau diddorol. Dilynwch y linc yma i weld enghreifftiau.

<http://www.s4c.cymru/cy/stwnsh/fideo-fi/page/2241/eich-fideos/>



Dewch i gwrdd â ...

Gwybodaeth

Enw: Daf Wyn (ond Dafydd Wyn Rees sydd ar y pasbort!)

Byw: Caerdydd

Dod o: Llandudoch, ger Aberteifi

Ysgol: Ysgol Uwchradd Aberteifi

Diddordebau: Cymdeithasu gyda ffrindiau, rhedeg, canu, mynd ar antur

Gwaith: Gweithio i gwmni Tinopolis

Teitl y swydd: Cyflwynydd a gohebydd

Dyletswyddau yn y gwaith:

- Cyflwyno'r rhaglen gylchgrawn **Prynhawn Da** yn fyw o'r stiwdio yn Llanelli.
- Gohebu ar straeon ar draws Cymru ar gyfer y rhaglen **Heno** – mae hyn yn cynnwys gwaith byw a gwaith wedi'i recordio o flaen llaw.
- Fel rhan o'r tîm cynhyrchu, rhaid ymchwilio a dod o hyd i straeon o bob cwr o Gymru.
- Weithiau, mae'n trosleisio rhaglenni eraill.

- Yn ddiweddar, mae e wedi cynhyrchu a chyflwyno rhaglen arbennig am ei daith i Base Camp ar fynydd Everest, yn Nepal!

Gwaith blaenorol: Gweithio yn Siop Tresaith yn ystod gwyliau’r ysgol a gwyliau’r brifysgol – “Lle braf iawn ac mae gen i atgofion melys am y lle!” meddai Dafydd.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
cyflwynydd	rhywun sy’n cyflwyno rhaglen ar y teledu	presenter
gohebydd	rhywun sy’n anfon newyddion ac eitemau i raglen deledu	journalist
tîm cynhyrchu	y tîm sy'n gyfrifol am gynhyrchu rhaglen deledu	production team
ymchwilio	chwilio am wybodaeth	(to) research
trosleisio	recordio llais i fynd gyda ffilm	(to) voiceover
blaenorol	cyn hyn	previous



Y Dyn Gwyllt

Cyfres ffeithiol yw **Y Dyn Gwyllt – Tri Thymor** ac, fel mae'r teitl yn awgrymu, mae'n sôn am ddyn sy'n byw yn y gwyllt am dri thymor.

Enw'r dyn yw Carwyn Jones ac mae'n treulio pum diwrnod yn byw yn yr awyr agored yn Sir Benfro yn ystod yr haf, pum diwrnod ym Mannau Brycheiniog yn ystod yr hydref a phum diwrnod yn Eryri yn ystod y gaeaf. Mae'n amlwg ei fod yn hoffi cael tipyn o antur a'i fod wrth ei fodd yn wynebu heriau newydd, gan gynnwys hela'i fwyd ei hun ac adeiladu lloches er mwyn cael cysgod.

Mae Carwyn yn berson penderfynol ac ymarferol iawn. Er ei fod yn wynebu her anodd ac er ei fod yn blino'n ofnadwy ac yn teimlo'n wan ar adegau, mae'n gwneud ei orau glas i lwyddo bob tro. Yng nghanol storm ofnadwy yn Sir Benfro, er enghraifft, mae ei hamog, ei sach gysgu a phopeth sydd ganddo yn wlyb sopen. Mae'n teimlo braidd yn ddigalon ond, yn hytrach na throï am adre, mae'n datrys pob problem, yn parhau â'r antur, ac yna, ar y diwedd, mae'n teimlo'n falch iawn ohono'i hun. Mae'n berson ymarferol iawn hefyd. Mae'n gwybod yn union beth i'w gasglu a'i hela fel bwyd a sut i'w baratoi ac mae'n egluro sut i wneud tasgau pwysig fel cynnau tân ac ati.

Carwyn yw'r prif gymeriad, wrth gwrs ac, fel arfer, mae'n siarad â ni, y gwylwyr. Weithiau, mae'n siarad â'r dyn camera hefyd, ond mae un cymeriad hoffus arall yn y gyfres – Gwen, ci ffyddlon Carwyn. Mae perthynas arbennig iawn yn bodoli rhwng y ddau.

Mae'r golygfeydd yn anhygoel ac mae'r gwaith camera'n wych. Yn y rhaglen ar Sir Benfro, er enghraifft, rydyn ni'n gweld arfordir hardd Sir Benfro, gan gynnwys ambell forlo yn y môr, y traethau a'r bryniau.

Mae'r rhaglen wedi ei chynllunio'n ardderchog. Ar y dechrau, rydyn ni'n gweld Carwyn yn cyrraedd ac yn cerdded ar hyd un o lwybrau Sir Benfro. Yna, rydyn ni'n ei ddilyn o ddydd i ddydd am bum diwrnod. Ar ddiwedd y rhaglen, rydyn ni'n ei weld yn mynd yn ôl ar hyd y llwybr ac yn ôl i'r man lle y dechreuodd.

Mae hon yn rhaglen hynod o ddiddorol a dw i'n siŵr y bydd llawer yn ei mwynhau. Wedi dweud hynny, mae ambell olygfa allai beri gofid i rai gwylwyr, yn enwedig plant, ac mae gwefan S4C yn awgrymu bod y rhaglen yn anaddas i bobl o dan 16 oed.

Mae'r rhaglen ar S4C ar nos lau ym mis Mehefin am hanner awr wedi naw*.

*Mae'r wybodaeth yma'n gywir adeg ysgrifennu'r cylchgrawn.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
her, heriau	sialens, sialensys	challenges
lloches	man i gysgodi rhag y tywydd	shelter
penderfynol	mae'n gwneud ei orau glas i wneud rhywbeth mae wedi penderfynu arno	determined
gwneud ei orau glas	gwneud ei orau	(to) do his best, his utmost
obsesiynol	mynd ar ôl ei obsesiwn	obsessive

Cymraeg

cyfleu

Disgrifiad

cyflwyno syniad / darlun o rywbeth, awgrymu

Saesneg

(to) convey



Cwis

Mae llawer o gwisiau gwahanol ar y teledu ac mae gwahanol fformatau i'r rhaglenni hyn, e.e.

unigolion yn ateb cwestiynau

parau'n ceisio meddwl am yr atebion lleiaf amlwg i gwestiwn

creu geiriau o lythrennau

timau'n ateb cwestiynau

parau'n enwi gwrthrychau ar thema arbennig

timau'n ateb cwestiynau am chwaraeon

parau'n ateb cwestiynau am eu priodas

timau'n ateb cwestiynau am y newyddion

timau'n ceisio penderfynu pa stori sy'n wir a pha un sydd ddim yn wir

Oes, mae digon o wahanol gwisiau ar gael ar y teledu. Mae gwobrau enfawr ar rai rhaglenni ond gwobrau bach sydd ar raglenni eraill.

Ceisiwch wylio clip o unrhyw raglen cwis ar S4C ar Clic.



Pwy sy'n gwneud beth?

Ydych chi wedi sylwi ar y geiriau hyn ar ddiwedd rhaglen deledu – yn enwedig ar ddiwedd rhaglen gylchgrawn?

golygydd

tîm golygu

ymchwilydd

graffeg

cynhyrchydd

coluro

camerâu

cyflwynydd

sain

cyfarwyddwr

cynorthwydd
cynhyrchu

peiriannydd /
peirianwyr

Mae'r geiriau hyn yn cyfeirio at bobl sy'n gweithio ar y rhaglen oherwydd mae creu rhaglen yn waith tîm ac mae pawb yn chwarae rhan bwysig iawn.

Mae llawer o'r gwaith yn digwydd 'tu ôl i'r llenni' - ond beth mae pawb yn ei wneud?







Ewch i Dasg 1.



Diolch!

1 Tachwedd 1982

Annwyl ddarllenwyr,

Ysgrifennaf i longyfarch S4C ar ei noson gyntaf o ddarlledu ac i ddweud pa mor hapus ydwyf fod sianel newydd wedi cael ei sefydlu.

Rhaid i mi ddweud nad oeddwn o blaid cael sianel Gymraeg tan yn ddiweddar iawn. A dweud y gwir, roeddwn yn cefnogi penderfyniad y Prif Weinidog, Margaret Thatcher, a'r Ysgrifennydd Cartref, William Whitelaw, i wrthod sefydlu sianel Gymraeg. Mae pob Cymro a Chymraes yn gallu siarad Saesneg ac mae pawb yn deall rhaglenni Saesneg yn iawn, felly i beth roedd angen gwastraffu arian drwy sefydlu sianel Gymraeg? Ni allwn weld pwrpas i'r holl brotestio a'r ymgyrchu dros sianel Gymraeg a phan welais i bobl ifanc yn dringo i fyny'r mast darlledu ym Mlaenplwyf ar y newyddion, roeddwn yn meddwl eu bod yn hollol wallgof ac yn anghyfrifol dros ben, rhaid i mi gyfaddef.

Heno, fodd bynnag, rwy'n teimlo'n falch iawn dros bawb oedd yn dymuno cael sianel Gymraeg ac rwy'n falch hefyd dros bawb, fel fi, oedd yn gwrthwynebu'r sianel oherwydd rwyf wedi sylweddoli y byddaf yn elwa'n bersonol o'r sianel

Gymraeg. Nid fy mod i'n bwriadu ei gwyllo, wrth gwrs, ond mae ei sefydlu yn golygu y bydd pob rhaglen Gymraeg oedd ar BBC ac ITV cyn heno yn cael eu symud i'r sianel newydd ac ni fydd rhaid i mi eu goddef nhw byth eto! Yn wir, byddaf yn medru gwyllo mwy o raglenni Saesneg ar y ddwy sianel o hyn ymlaen gan y bydd rhaglenni Saesneg newydd yn cymryd lle'r rhaglenni Cymraeg oedd ar y ddwy brif sianel.

Diolch, felly, i bawb a brotestiodd am y sianel. Mae arna i ddyled dragwyddol i chi a dymunaf bob llwyddiant i'r sianel newydd!

W. Smith

1 Tachwedd 1982

Noson fythgofiadwy!

Heno, am chwech o'r gloch dechreuodd S4C – sianel deledu Gymraeg! Nawr, mae pedair sianel ar y teledu yn lle tair ac mae un ohonyn nhw'n dangos rhaglenni Cymraeg! O'r diwedd!

Rhaglen gartŵn oedd y rhaglen gynta – rhaglen am dedi anhygoel a dw i'n siwr y bydd y sianel newydd yn anhygoel hefyd! Yna, daeth y newyddion ar y sgrin – a'r newyddion gorau posib wrth gwrs oedd dechrau S4C!

Bydd 20 awr o raglenni Cymraeg ar y sianel bob wythnos a bydd dwy opera sebon – **Coleg** a **Pobol y Cwm** (sydd wedi bod ar BBC ers 1974!). Rydyn ni'n mynd i gael pob math o raglenni – rhaglenni newyddion, rhaglenni dogfen, dramâu, ffilmiau, rhaglenni plant, rhaglenni cwis, rhaglenni comedi a chwaraeon a rhaglenni ffermio – a mwy. Dw i'n methu aros. Dw i mor hapus!

Dw i'n teimlo mor ddiolchgar i bawb sy wedi ymgyrchu mor galed dros sefydlu'r sianel, yn enwedig Gwynfor Evans! Hebdo, fyddai dim sianel Gymraeg dw i'n siwr. Fe yw fy arwr i nawr!

Nos da – tan nos yfory! Dw i'n methu aros i weld pa raglenni Cymraeg fydd ymlaen nos yfory – a'r noson wedyn ... a'r noson wedyn. Mae'r sianel newydd yn mynd i newid fy mywyd!

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Ysgrifennydd Cartref	gweinidog yn y llywodraeth yn Llundain sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â Phrydain	Home Secretary
sefydlu	dechrau	(to) establish
ymgyrchu	gweithredu dros achos penodol	(to) campaign
gwrthwynebu	bod yn erbyn rhywbeth	(to) oppose
elwa	cael elw	(to) profit
bythgofiadwy	i'w gofio am byth	unforgettable



Patrwm gwylio

YR HAUL

Rhifyn 56, Mai 2017

Y ffigurau diweddaraf

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn dangos bod llai o Gymry Cymraeg yng Nghymru wedi gwyllo S4C ar y teledu yn ystod 2015/2016 nag mewn blynyddoedd blaenorol. Gweler Graff 1 isod. Yn ôl arbenigwyr yn y maes, mae hyn yn nodweddiadol o batrwm gwyllo sianeli eraill hefyd.

Ar y llaw arall, mae'r ffigurau'n dangos bod nifer y bobl ar draws y DU oedd yn gwyllo'r sianel am o leiaf tair munud yn olynol yn ystod yr un cyfnod wedi cynyddu.

Dwy farn

Mae ein gohebydd Cyfryngau wedi ymweld ag ysgol uwchradd leol i weld beth yw barn y disgyblion am y ffigurau hyn.

"Mae angen i S4C geisio creu rhaglenni sy'n apelio at fwy o bobl," meddai un disgybl. "Mae gormod o raglenni wedi cael eu creu ar gyfer pobl ganol oed, a does dim digon ar gyfer pobl ifanc."

"Mae'r ffaith bod S4C yn apelio at bobl y tu hwnt i Gymru'n dangos pa mor llwyddiannus yw'r sianel," meddai disgybl arall. "Efallai mai Cymry sydd wedi symud i rannau eraill o'r DU sy'n gyfrifol am y ffigurau hyn ond mae'n bosib hefyd bod pobl eraill, sydd ddim yn Gymry, wedi dechrau gwyllo a mwynhau'r sianel oherwydd bod safon y rhaglenni mor uchel."

Cyfrwng gwyllo

Un peth arall sy'n ddiddorol yw bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sydd wedi bod yn gwyllo'r sianel ar y we neu ar ddyfeisiau symudol yn ystod y cyfnod, yn hytrach nag ar y teledu yn unig. Gweler Graffiau 2 a 3.


Eich barn chi

Beth yw'ch barn chi am hyn i gyd?

Ysgrifennwch aton ni.

Graff 1


Tudalen 50



<http://www.s4c.cymru/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2016.pdf>

Graff 2


Tudalen 52



<http://www.s4c.cymru/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2016.pdf>

Graff 3

Tudalen 53



<http://www.s4c.cymru/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2016.pdf>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
nodweddiadol	yn dilyn patrwm	typical
gohebydd	rhywun sy'n cyflwyno adroddiadau i'r wasg	reporter
yn olynol	ar ôl ei gilydd	consecutively
cynnydd	nifer mwy	increase
dyfeisiau	ffurf luosog dyfais - teclyn arbennig	devices



Gweithio ar raglen gylchgrawn

Dyma Dafydd Wyn Rees. Mae e'n gweithio ar y rhaglenni **Prynhawn Da** a **Heno** ar S4C. I ddechrau, darllenwch y darn, "Dewch i gwrdd â ...", er mwyn cael gwybodaeth amdano.



Sut rydych chi wedi cyrraedd lle rydych chi nawr?

Dilynais i gwrs gradd yn y Gymraeg a Cherddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar ôl gorffen y cwrs, roeddwn i wedi bwriadu dilyn cwrs i fod yn athro ond pan ddaeth y cyfle i weithio i gwmni Tinopolis ar ei rhaglenni dyddiol roedd rhaid i mi dderbyn.

Oes yna brofiadau yn y gorffennol sydd wedi'ch helpu chi yn eich swydd?

Yn fy swydd i, mae'n rhaid i mi deimlo'n gartrefol o flaen cynulleidfa ddieithr. Dw i wrth fy modd yn canu mewn corau felly mae llwyfannau eisteddfodau bach a mawr wedi magu hyder ynof i. Ers yn blentyn dw i wedi canu gydag Ysgol Gerdd Ceredigion, dan arweiniad Islwyn Evans, yna gyda Chôr Aelwyd y Waun Ddyfal yn y Brifysgol, a nawr dw i'n canu gyda chorau Cywair a Côrddydd - mae hyn i gyd wedi bod yn hyfforddiant gwych ar gyfer gwybod sut i sefyll yn llonydd ac yn dawel gyda gwên enfawr am oriau diddiwedd!

Sut mae medru siarad Cymraeg wedi helpu yn eich gyrfa chi?

Mae'n annhebygol iawn y byddwn i'n gweithio i S4C heb fedru siarad Cymraeg! Mae angen gafael dda ar yr iaith ac mae angen medru ei haddasu at wahanol sefyllfaoedd a lleoliadau. Er enghraifft, mae'r iaith ychydig yn fwy blodeuog pan fyddwn ni'n trafod gwaith beirdd fel T.H. Parry-Williams, ond mae'n fwy hamddenol gydag eitem ysgafn fel un ar Farathon Llundain.

Sut mae medru siarad Cymraeg wedi cyfoethogi'ch bywyd?

Heb os, mae'r Gymraeg wedi agor sawl drws i mi. Dw i'n mwynhau canu a dw i wedi bod yn aelod o gorau ers yn ifanc iawn. Mae'r rhain yn gymdeithasau Cymraeg ac o'u hachos nhw dw i wedi teithio'r byd, cwrdd â phobl bwysig ac enwog yn y byd cerddorol a dw i wedi canu mewn rhai o'r neuaddau cyngerdd enwoca' yn y byd – fel y Royal Albert Hall a'r O2 yn Llundain.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i berson ifanc sydd eisiau bod yn gyflwynydd neu ohebydd ym myd y teledu?

Ewch amdani! Os ydych chi'n mwynhau siarad gyda phobl a theithio, dyma'r swydd i chi. Mae'r oriau'n gallu bod yn hir ac mae llawer o bwysau arnoch chi a'r tîm i greu rhaglen sydd o'r safon uchaf - ond mae hynny'n wir gydag unrhyw swydd. Dw i mor ffodus i allu dweud fy mod yn dwlu ar fy swydd a'm cydweithwyr, yn ogystal â'r bobl newydd dw i'n cwrdd â nhw yn ddyddiol!

Beth yw'r peth pwysicaf ar gyfer bod yn gyflwynydd teledu da?

Rhaid bod gyda chi ddiddordeb mewn pobl a rhaid i chi fod yn barod i sgwrsio a gwrando ar bawb!

Wnewch chi ddisgrifio diwrnod arferol?

Mae'n anodd iawn disgrifio diwrnod arferol fel cyflwynydd. Dw i'n treulio peth o fy amser yn y swyddfa yn Llanelli a'r gweddill mas ar yr hewl yn ffilmio eitemau i **Heno** a **Prynhawn Da**. Pan fydda i'n cyflwyno ar soffa **Prynhawn Da**, mae'r diwrnod yn dechrau tua 9.15 y.b.. Dw i'n bwrw golwg dros y running order, sef beth yw cynnwys y rhaglen a beth sy'n digwydd. Yna dw i a'r cyflwynydd arall yn sgriptio lincs i fynd ar yr autocue a thrafod trywydd sgysiau ein gwesteion ni - mae'n rhaglen awr felly mae 'na ddigon i'w drafod! Nesa, mae cyfle i ddarllen erthyglau yn y papurau newydd, ymchwilio i bwnc sy'n cael ei drafod ac yn y blaen. Erbyn 11 y bore, mae'r cyfarfod cynhyrchu yn



cael ei gynnal lle mae'r cynhyrchydd, cyfarwyddwr, PA, rheolwyr llawr, cyflwynwyr, colur a'r bobl isdeitlo yn trafod yr holl gynnwys.

Mae rhaid i ni fod ar lawr y stiwdio erbyn tua 1pm i ymarfer, sef darllen drwy'r *autocue* a sicrhau ein bod ni'n gwybod ar ba gamera i edrych a phryd! Yn ystod yr amser yma hefyd ry'n ni'n cael sgwrs gyda'r cyfranwyr ac yn dod i nabod ein gwesteion ni. Mae **Prynhawn Da** yn fyw am 2 y.p. bob dydd, felly awr o sgwrsio, trafod, blasu (fy hoff ran i!) a chwerthin, wrth gwrs! Erbyn 3 y.p. dw i'n barod am ddished fach o de cyn mynd yn ôl i'r ddesg i baratoi at yr eitem sy'n cael ei ffilmio 'fory! Gall hyn olygu trafod ble i gwrdd â'r cyfranwyr, cael caniatâd i ffilmio, sgriptio, rhoi'r manylion i'r criw - lot fawr o bethau, gan groesi bysedd na fydd hi'n bwrw glaw! Weithiau, mae'r broses o drefnu yn fwy o dasg na'r ffilmio ei hun!

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
annhebygol	ddim yn debygol	unlikely
lleoliadau	ffurf luosog lleoliad ; lle tu allan i'r stiwdio lle mae ffilmio'n digwydd	locations
blodeuog	arddull fwy barddonol	flowery
pwysau	disgwyliadau i wneud yn dda	pressure
cydweithwyr	ffurf luosog cydweithiwr ; pobl sy'n gweithio gyda chi	colleagues
gwesteion	ffurf luosog gwestai ; pobl sydd wedi eu gwahodd	guests
trywydd	cyfeiriad	direction
hewl	ffordd	road
cyfranwyr	ffurf luosog cyfrannwr ; pobl sy'n cyfrannu at rywbeth	contributors

Cymraeg

Disgrifiad

Saesneg

dished

dysglaid neu baned

cuppa